# ST CATWGS



## GWERTHUSIAD O ARDAL GADWRAETH

CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

2007

cynnwys


**Map 1** – Ardal Gadwraeth a Chyfarwyddyd Erthygl 4

## 1. CYFLWYNIAD ..........................................
1.1 Ardaloedd Cadwraeth
1.2 Gwerthusiadau
1.3 Cyd-destun y Polisi

## 2. HANES ..........................................
2.1 Gwreiddiau Hanesyddol a Datblygiad yr Ardal
Map 2: Datblygiad Hanesyddol y Pentref

## 3. ASESU CYMERIAD YR ARDAL..........................
3.1 Ansawdd Nodedig y Lle
3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirwedd
3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat
3.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun
3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel
3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel
Map 3: Cynllun y Treflun

## 4. ARDALOEDD Â CHYMERIAD ARBENNIG.......
4.1 Yr Ardal Ddeheuol
4.2 Yr Ardal Ogleddol

## 5. FFRAMWAITH AR GYFER GWEITHREDU.......
5.1 Prif Bwrpas y Gwerthusiad
5.2 Manteision y Gwerthusiad
5.3 Pwysau i Newid
5.4 Cydweithio i Sicrhau Canlyniadau
5.6 Argymhellion


## 6. ARGYMHELLION..........................................

## 7. YMGYNGHORIAD..........................................

Atodiad 1 - Canllaw i Berchnogion Tai a Datblygwyr
Atodiad 2 - Cyngor am Goed a Thirlunio
Atodiad 3 - Adolygu'r Ffin
Atodiad 4 - Geirfa

Ffynonellau a Chyfeiriadau Cefndir
Diolchiadau
Manylion Cyswllt a Gwybodaeth

# Map 1
# Ffin yr Ardal Gadwraeth (mabwysiadwyd 2007)



## 1.1 Ardaloedd Cadwraeth

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Yr Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n penderfynu dynodi ardal yn Ardal Gadwraeth, a hynny ar ôl asesu cymeriad yr ardal honno. Mae hyn yn aml yn golygu asesu mwy na'r adeiladau'n unig. Gall cynllun y ffyrdd, golwg y strydoedd, coed a mannau gwyrdd i gyd gyfrannu at ansawdd yr ardal. Mae dynodi ardal yn diogelu'r cymeriad hwn, ac er mwyn cyflawni hyn mae gan y Cyngor ragor o reolaeth dros ddymchwel, mân ddatblygiadau a diogelu coed. Dynodwyd St Catwg yn Ardal Gadwraeth ym mis Mawrth 1973.

## 1.2 Gwerthusiadau


Mae gan y Cyngor ddyletswydd i adolygu Ardaloedd Cadwraeth er mwyn nodi faint o newid a fu ers y dynodi, penderfynu a oes angen newid y ffiniau a nodi camau posibl ar gyfer gwella a diogelu'r Ardal Gadwraeth. Er mwyn rheoli'r broses hon paratowyd Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth sy'n nodi blaenoriaethau i'r Ddinas, a'r meini prawf sydd i'w defnyddio wrth asesu ardaloedd presennol a rhai newydd. Cytunwyd ar y Strategaeth yn 2001, a'i diweddaru ym mis Mawrth 2006.

Mae'r gwerthusiad drafft hwn yn rhoi cyfle i benderfynu a oes angen newid ffin yr Ardal Gadwraeth; diffinio cymeriad yr Ardal a'r cyfleoedd i wella; ac ar ôl ymgynghori, mabwysiadu'r gwerthusiad a'r canllawiau i ddiogelu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

## 1.3 Cyd-destun y Polisi

Rhan allweddol o'r gwaith o werthuso yw diffinio cymeriad yr Ardal Gadwraeth, er mwyn paratoi canllawiau priodol ar ei chyfer. Gall polisïau eraill sy'n cyd-fynd â'r fframwaith cynllunio statudol gynorthwyo â'r gwaith hwn. Darperir hyn drwy Gynllun Datblygu Unedol Caerdydd, tan y bydd Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei baratoi.

## 2.1 Gwreiddiau Hanesyddol a Datblygiad yr Ardal








- Seremoni yn Eglwys St Catwg, 1895
- Yr Eglwys yn yr eira yn 1899
- Tŷ Rhawn a Bro Nant yn 1921

Bu anheddiad ym Mhentyrch ers y 6ed ganrif pan sefydlodd Sant Catwg bentref i fynachod yno. Sant Catwg neu Cadoc yw un o seintiau enwocaf Cymru, gan iddo sefydlu amryw o bentrefi i fynachod, gyda Llancarfan ym Mro Morgannwg yn un o'r mwyaf nodedig, lle dychwelwyd ef a'i gladdu wedi iddo gael ei ladd gan y Sacsoniaid yn Nheyrnas Geltaidd Calchfynedd.


Credir i Sant Catwg ddewis y safle ym Mhentyrch lle saif yr eglwys bresennol oherwydd bod 'ffynnon hud' gerllaw, o'r enw Ffynnon Catwg. Adwaenir ei ffrwd gysylltiedig fel Nant Gwladys, a enwyd ar ôl mam St Catwg. Tan yr 1940au y ffynnon hon oedd unig gyflenwad dŵr y pentref, a gyflenwyd drwy bistyll yn wal mynwent yr eglwys, a oedd hefyd yn fan cyfarfod traddodiadol i hel straeon lleol. Yn y ddeuddegfed ganrif y ceir y cyfeiriad cyntaf i Eglwys St Catwg pan gadarnhaodd Archddyfarniad Pabyddol 'Ecclesia Penntirch' ymhlith eglwysi eraill, i Esgob Llandaf. Rhywbryd ar ôl hyn daeth St Catwgs yn eglwys y plwyf dros Bentyrch a cheir nifer o gyfeiriadau ati drwy gydol y canol oesoedd; er enghraifft, cofnod yr Esgob Godwin yn 1603 o'r lle'n 'Ficerdy sydd werth £10 y flwyddyn.' Nid yw'n amlwg faint o'r pentref presennol sydd wedi goroesi o'r cyfnod hwn; fodd bynnag, mae'r gwerth ariannol hwn yn rhoi rhyw fath o syniad i ni o ddatblygiad St Catwg fel plwyf gwledig. Yn 1857 ailadeiladwyd Eglwys St Catwg i'w maint presennol er mwyn cynnig lle i'r nifer cynyddol o bentrefwyr, yr oedd llawer ohonyn nhw'n byw yn y tai a ddangosir ar Fap Degwm 1839, sy'n sylfaen i'r pentref hanesyddol fel y mae'n ymddangos heddiw.

Am ganrifoedd amaethyddiaeth, heb os, oedd prif ffynhonnell cyflogaeth ardal Pentyrch. Roedd hyn yn wir tan yr ail ganrif ar bymtheg pan ddechreuwyd cloddio am lo a haearn. Cafodd y diwydiant amlygol hwn effaith sylweddol ar amgylchedd adeiledig llawer o bentrefi i'r gogledd-orllewin o Gaerdydd, gan gynnwys Gwaelod-y-garth a Radur, lle adeiladwyd rhesi o fythynnod gweithwyr yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fodd bynnag, cadwodd Pentyrch, ac yn fwy penodol, 'hen bentref' St Catwg, ei gymeriad fel anheddiad gwledig, gyda thai unigol yn dilyn llwybr Church Road.

Yn ystod degawdau diweddarach, ac mewn ymateb i dwf trefol sylweddol yng Nghaerdydd, bu datblygiadau maestrefol sylweddol yn rhannau gogleddol Pentyrch. Er gwaethaf hyn, mae 'hen bentref' St Catwg wedi cadw ei gynllun hanesyddol a'i swyn gwledig. Gellir gweld hyn o batrymau caeau'r canol oesoedd a'r ffermydd amgylchynol sydd wedi goroesi.




Map 1878
yr Arolwg
Ordnans




Map 1942
yr Arolwg
Ordnans










- Church Road 1936
- Hen Neuadd yr Eglwys 1936
- Mrs Thomas a'i merch yn hen Dafarn y Rock and Castle 1900
- Tafarn y Kings Arms

# Map 2
# Datblygiad Hanesyddol y Pentref



Mae nifer o nodweddion allweddol wedi'u nodi i gynorthwyo â'r gwerthusiad o'r ardal. Maent yn dilyn cyngor gan y llywodraeth ac wedi'u cynnwys yn Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth Caerdydd 1997. Y rhain yw:

- Ansawdd unigryw y lle,
- Presenoldeb adeiladau tirnod a nodweddion tirwedd,
- Hierarchaeth mannau cyhoeddus a phreifat,
- Deunyddiau lleol neu anarferol o ansawdd uchel yn y treflun
- Manylion pensaernïol o ansawdd uchel,
- Tirlunio caled a meddal o ansawdd uchel.

Ceir dadansoddiad isod o bob un o'r rhain mewn perthynas ag Ardal Gadwraeth St Catwg.

## 3.1 Ansawdd Unigryw y Lle

### Lleoliad Gwledig

Mae Ardal Gadwraeth St Catwg yn unigryw am nifer o resymau. Fel Ardal Gadwraeth gyfagos Craig y Parc, mae St Catwgs yn wledig ei naws. Wedi ei lleoli ar lechweddau deheuol Mynydd y Garth, canolir yr ardal o amgylch un ffordd (Church Road) sy'n dilyn llawr y dyffryn o'r gogledd i'r de. Tir amaethyddol yw mwyafrif llethol o dir yr ardal, sy'n cynnwys amryw o gaeau ar bob ochr y dyffryn, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn gaeau pori heblaw am goetir sylweddol yn y de-orllewin. Mae'r clytwaith o gaeau, sy'n adlewyrchu ffiniau hynafol ac yn cynnwys hen chwareli, pyllau a siafftau cuddiedig, yn goleddu'n osgeiddig o gyfeiriad Church Road, gan roi golygfeydd helaeth i'r pentref hynod oddi tano, ac o'r pentref hwnnw hefyd.

### Arddull y Pentref

Mae'r amgylchedd adeiledig yn cynnwys eiddo ar wahân ar hyd llwybr Church Road. Yn y de, ceir grŵp o dai, sy'n cynnwys Llys y Coed. Mae'r t ŷ hwn yn cael ei gynnwys ar Fap y Degwm 1939 ac mae'n arddangos elfennau nodweddiadol yr 'hen bentref' gyda'i waliau gwyngalchog, ei ffenestri dormer a thalcen y t ŷ yn wynebu'r ffordd. Wrth deithio tua'r gogledd, mae nifer yr eiddo'n cynyddu ar ôl Glan Nant, gan ddatgelu grŵp o dai sy'n rhannu elfennau nodweddiadol Llys y Coed. Mae Glan Nant, Bro Nant, Tŷ Rhawn a T ŷ Ffald yn arddangos arddull, graddfa a gorweddiad cynhenid cyffredin, gyda thalcenni'r tai yn wynebu'r briffordd. Mae hyn yn creu teimlad caeedig, sydd, ar y cyd â chysondeb cynlluniau'r adeiladau a'r lleoliad gwledig, yn ychwanegu at deimlad pentref traddodiadol yr ardal.

### Croesffordd yr Eglwys

Tu hwnt i Tŷ Ffald, mae'r tai wedi eu gosod beth pellter o'r briffordd, gan gynnig teimlad o ofod wrth i'r ffordd godi tuag at yr eglwys ddeniadol hon o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r Hen Reithordy a Catwgs Cottage yn nodedig iawn yma, gan godi'n uchel uwchben ochr y ffordd fel y gwnaethant am ganrifoedd gan arddangos waliau deulawr o gerrig llanw yn y dull cynhenid. I'r gogledd o'r rhain mae croesffordd yr eglwys yn brif ganolbwynt i'r pentref, ac, oherwydd natur linol gweddill yr Ardal Gadwraeth, mae'n sefyll allan yn elfen nodedig. Uwchben mynwent yr eglwys, mae Penuel Road yn codi tuag







- Goygfa o'r pentref o Castle House a'r Bwthyn
- Goygfa o'r pentref o Castle House a'r Bwthyn
- Bro Nant

at grŵp o adeiladau fferm gwyngalchog cerrig, a oedd yn gysylltiedig â chyn Dŷ Fferm Tyn y Coed. Mae'r adeiladau fferm hynod hyn yn gwahanu'r eglwys o ddatblygiad tai modern Cefn Llan. Gyferbyn â phorth mynwent hynod yr eglwys, ceir tri thŷ modern sylweddol, ac un ohonynt yw'r ficerdy presennol.

## Yr Ardal Ogleddol

I'r gogledd o'r eglwys mae'r dirwedd yn codi uwchben Church Road, gan roi golygfeydd rhagorol o'r dyffryn tua'r de. Mae'r 'Rock', sef cyn dŷ tafarn y Rock and Castle, yn edrych dros yr eglwys a'r dyffryn tu hwnt ac, er gwaethaf estyniadau helaeth i'r defnydd preswyl presennol mae'n goroesi fel atgof o'r hen amser. Ochr yn ochr â'r Rock mae Bryn Catwg, yn sefyll yn uchel yn ei erddi wedi eu tirlunio, yn arddangos nodweddion pensaernïol y cyfnod Fictorianaidd. Fe'i adeiladwyd yn wreiddiol i gymryd lle'r hen ficerdy, a safai unwaith ar ei dir ychydig i'r de. Ond olynwyd ef gan y ficerdy presennol yn ddiweddarach. Mae rhan ogleddol Church Road yn nodedig am ffasâd arbennig tŷ tafarn y Kings Arms. Mae Greenhurst yn nodi ffin ogleddol yr Ardal Gadwraeth; mae'n dyddio o'r un cyfnod â Bryn Catwg, gan arddangos nodweddion Fictorianaidd a'i leoli mewn tir caeëdig sylweddol.

Mae'r ardal i'r gorllewin o'r Kings Arms wedi profi newidiadau mawr dros y blynyddoedd; fodd bynnag, mae Neuadd Genhadol Pentyrch a Castle House a'r Bwthyn sydd ynghlwm â'r neuadd i gyd wedi goroesi o tua 1800. Trwy ffordd gul grom y mae cyrraedd yr adeiladau uchod, a'r olaf ohonynt sy'n rhoi'r golygfeydd deheuol gorau o'r pentref.

# 3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirwedd

## Eglwys St Catwg

Mae Eglwys St Catwg yn cynrychioli canolbwynt y pentref. Wedi ei lleoli ar groesffordd Church Road a Penuel Road, mae tŷr gothig addurnedig yr eglwys gyda'r ceiliog gwynt goreurog ar ei ben yn nodwedd sy'n tynnu sylw'r llygad. Mae ei ffenestri dwyreiniol a gorllewinol gosgeiddig yn elfen bwysig o strydlun Church Road a Penuel Road. Mae porth mynwent yr eglwys yn nodi mynediad dwyreiniol i'r fynwent o Church Road. Ychwanegiad hwyrach i'r eglwys yw'r porth ac mae'n dynwared gogwydd serth yr eglwys a'r bandio o lechen Gymreig, ac mae arno groes fawr. Mae hyn yn cyfleu'r effaith o ymestyn llinell yr adeiladau ymlaen tuag at y groesffordd, yn ogystal â chynnig porth deniadol i ymwelwyr.

## Y King Arms

Ymhellach i'r gogledd saif tŷ tafarn y Kings Arms yn adeilad tirnod nodedig. Yn wir, ynghyd ag Eglwys St Catwg a phorth yr eglwys, mae'r Kings Arms yn Adeilad Rhestredig, Graddfa 2. Fferm gopihowld o'r enw Cae Golman oedd yr adeilad yn wreiddiol yn yr ail ganrif ar bymtheg hyd nes ei newidiwyd yn dŷ tafarn yn y ddeunawfed ganrif. Wedi ei osod ychydig y tu ôl i Church Road gan oleddu tua'r de gyda'r ffordd, mae gan y Kings Arms wyneb deulawr isel gyda waliau cerrig wedi eu rendro a'u peintio'n llachar ac sydd â tho o lechen Gymreig.










- Croeffordd yr Eglwys o'r dwyrain
- Adeiladau fferm Tyn y Coed o'r gorllewin
- Eglwys St Catwg a Phorth, y Fynwent
- Tafarn y Kings Arms

## Adeiladau Anrhestredig

Ceir nifer o adeiladau nodedig anrhestredig sy'n cynnwys nodweddion pensaernïol sy'n nodweddiadol o'r pentref, gyda Glan Nant, Bro Nant a Tŷ Fald y rhai mwyaf amlwg. Mae'r rhain ar y cyfan yn dai hanner coediog yn yr arddull Duduraidd gyda'u talcenni'n wynebu ochr y ffordd (gweler adran 4.5). Yn wahanol i arddull draddodiadol y pentref, adeiladwyd Ashgrove, Bryn Catwg a Greenhurst yn ystod y cyfnod Fictorianaidd ac maent wedi eu lleoli ar dir uwch ac mewn tir caeëdig sylweddol sydd wedi ei dirlunio. Mae eu maint ffisegol a'u harddull Fictorianaidd nodedig yn eu gwneud yn adeiladau tirnod pwysig yn y pentref. Mae Bryn Catwg yn dŷ amlwg ar groesffordd Church Road/Penuel Road ac yn sefyll mewn gardd fawr sydd wedi ei thirlunio. Mae ei waliau cerrig noeth a'r naddiadau ar y brics yn arbennig o drawiadol. Mae Ashgrove i'w weld yn amlwg o Church Road gyda'i waliau esmwyth yn sefyll yn uchel mewn tir helaeth. Hefyd ar lethr dwyreiniol y dyffryn, mae waliau Greenhurst o baent llachar yn nodi ffin ogleddol yr Ardal Gadwraeth, gan ei wahaniaethu o dai modern y pentref ar hyd Heol y Pentre.

## Y Dyffryn

Mewn perthynas â nodweddion y tirlun, lluniwyd datblygiadau St Catwg gan ei leoliad yn y dyffryn ac mae'r amgylchedd adeiledig yn gweddu â hyn, gan ddilyn llawr y dyffryn ar hyd Church Road (gweler y map Cyfuchliniau a'r map o'r Awyr isod). Arweiniodd hyn at gadw caeau gwyrdd bob ochr i ffin y pentref, gan oleddu i fyny tuag at gefnlennau'r dyffryn a rhoi golygfeydd braf i drigolion y pentref. Yn wir, mae nifer o hawliau tramwy cyhoeddus sy'n rhannu'r caeau hyn, yn enwedig y rheiny tua'r dwyrain, gan roi mynediad i'r cefn gwlad gwych o amgylch y pentref. Mae ffin yr Ardal Gadwraeth yn cynnwys caeau sy'n cyfrannu'n sylweddol tuag at olwg yr Ardal Gadwraeth; fodd bynnag, nid yw ei statws o angenrheidrwydd yn eu gwarchod rhag datblygiadau.

Mae rhaniad clir yn y defnydd o'r cefn gwlad hwn: tir pori agored tua'r dwyrain a choetir tua'r gorllewin (heblaw am un cae i'r de o Gefn Llan). Yn rhan dde-orllewinol yr ardal, ceir hawliau tramwy cyhoeddus yn cychwyn i'r de o Ashgrove, gan arwain cerddwyr o Church Road trwy goetir sylweddol gyferbyn â Nant Gwladys, gan gysylltu â Thaith Gylchol Pentyrch ac Ardal Gadwraeth gyfagos Craig-y-Parc. Ar y cyd â choridor Nant Gwladys, diogelir y coetir hwn drwy ei statws fel Safle o Gadwraeth Natur Pwysig.

Gan lifo drwy'r dyffryn, mae Nant Gwladys yn ymdroelli o'i tharddiad o dan 'Springfall' i'r dwyrain o'r tai ar Church Road cyn croesi o dan Ashgrove i'r coetir i'r gorllewin. Mae Nant Gwladys yn elfen bwysig yn y pentref, gan roi gwerth clywedol ac esthetaidd yn ogystal â gweithredu fel sianel ddraenio. Does dim coed stryd na dim Gorchmynion Cadw Coed mewn grym yn yr ardal. Fodd bynnag, ceir nifer o enghreifftiau o goed wedi eu plannu o fewn ffiniau caeëdig, yn fwyaf nodedig ym Mryn Catwg ac yn Eglwys St Catwg. Mae'r eiddo hyn yn cynnwys amryw o rywogaethau o goed, sy'n cyfuno i liniaru'r adeiladau cerrig noeth ar y groesffordd hon.









- Bryn Catwg
- Ashgrove
- Llys y Coed o'r hawl tramwy gorllewinol
- Nant Gwladys yn llifo y tu ôl i Dŷ Ffald

# Map o'r Awyr



# 3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat

## Y Strydlun

Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys dwy ffordd, sy'n cyfarfod i greu cyffordd ger Eglwys St Catwg. Yn gyson gyda'i naws wledig, ychydig iawn o lwybrau troed sydd i'w cael ar hyd y briffordd. Yn wir, mae rhannau o Church Road a Penuel Road born iawn yn rhy gul i alluogi dau gerbyd i basio'i gilydd. Yn rhan deuheuol Church Road, lle nad yw'r briffordd wedi cael ei diffinio gan dai, mae'n tueddu i fod yn lletach ac mae gwrychoedd sylweddol yn gwahanu'r ffordd darmac o'r caeau agored. Ar hyd yr holl ffordd, ceir waliau cerrig y tu allan i'r tai (gan gynnwys y tai mwy modern) gan gyflwyno gerddi ffrynt wedi eu tirlunio i'r strydlun.

Mewn amryw o fannau ar hyd Church Road mae'r amgylchedd i gerbydau yn gaeedig ac mae'r amgylchedd i gerddwyr yn eithaf anghyffyrddus. Mae hyn yn digwydd yn arbennig ar Church Road lle lleolir y tai hŷn sydd â'u talcenni'n wynebu ochr y ffordd. Mae'r diffyg amlwg o barcio sydd ar gael oddi ar y ffordd fawr a'r diffyg llwyr o barcio ar y ffordd fawr yn amlygu ffin gul i'r pentref sy'n rhoi naws wledig a chynllun hanesyddol i St Catwg. Arweiniodd hyn at rai enghreifftiau o greu llefydd parcio oddi ar y ffordd ar hyd Church Road drwy wneud toriadau i dir caeëdig y ffiniau ffrynt.

Ceir amgylchedd mwy cyffyrddus i gerddwyr ar y llwybr cerdded cul i'r gogledd o Bro Nant. Fodd bynnag, daw hwn i ben y tu hwnt i groesffordd yr eglwys. Ymhellach i'r gogledd mae'r Kings Arms wedi ei leoli ychydig y tu ôl i'r ffordd gan adael gofod i barcio ceir a llefydd i eistedd yn yr awyr agored. Cyfraniad niwtral i'r ardal sydd gan y maes parcio wrth ymyl y dafarn sydd ag wyneb ffurfiol. Fodd bynnag, cyfraniad negyddol i'r ardal sydd gan iard Garej Pentyrch gyferbyn, gan gyflwyno wyneb rhychog caled a ddefnyddir yn ddyddiol fel maes parcio dros dro. Ceir lôn gyhoeddus sy'n mynd tua'r gorllewin, a heibio i'r garej, sy'n arwain at yr ystâd fodern ac at y cul-de-sac yn Neuadd Genhadol Pentyrch a Castle House a'r Bwthyn. Dangosir y lôn hanesyddol ar Fap y Degwm 1839 ac mae mewn cyflwr da ar hyn o bryd. Defnyddir maes parcio Neuadd Genhadol Pentyrch yn lle troi i'r garej ac mae mewn cyflwr gwael. Nid yw ymddangosiad y lle yn cael ei wella gan finiau olwyn a adewir allan yn rheolaidd.

## Mannau Cyhoeddus

Cedwir pedwar o hawliau tramwy cyhoeddus sy'n rhoi mynediad i'r cefn gwlad agored a'r amryw o fannau oddi ar Church Road. Dynodir y llwybrau hyn gan arwyddion generig ar ochr y ffordd a gellir cael mynediad atynt drwy gatiau neu gamfeydd. Mae'r ddau hawl tramwy dwyreiniol yn croesi caeau pori tuag at gefnlen y dyffryn gan roi golygfeydd rhagorol o'r dyffryn isod. Tua'r de-orllewin, ceir dau hawl tramwy cyhoeddus arall sy'n cyfuno i gynnig mynediad trwy'r coetir yn ogystal â chysylltiad pwysig ag Ardal Gadwraeth gyfagos Craig-y-Parc.

Mynwent Eglwys St Catwg yw'r unig fan cyhoeddus caeëdig yn yr Ardal Gadwraeth, er mai man lled gyhoeddus ydyw. Ceir waliau cerrig llanw sylweddol yno gyda lleiniau ymyl wrth y fynedfa, sy'n cynnwys porth mynwent trawiadol. Ceir mainc bren ar y stryd gerllaw'r porth. O'r gyffordd hon, mae Penuel Road yn dilyn yn gul gyda wal yr eglwys i fyny allt serth tuag at adeiladau fferm Tyn y Coed, sydd gyferbyn â'r llecyn gwyrdd bychan sy'n arwain at Lôn-y-Fro ac sy'n rhan o'r Ardal Gadwraeth.










- Rhan wledig o Church Road (de)
- Garej Pentyrch/ Forgeside
- Neuadd Genhadol Pentyrch
- Yr hawl tramwy i'r dwyrain o groesffordd yr eglwys









- y Ffald
- Waliau carrig a tho llechi Cymreig Eglwys St Catwg
- Giat haearn bwrw yn yr Hen Reithordy
- Eglwys St Catwg

# 3.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun

## Eiddo

Adeiladwyd eiddo hanesyddol sy'n nodweddiadol o'r pentref, fel Llys y Coed, Yr Hen Reithordy a'r Kings Arms, o waliau cerrig, sydd wedi cael eu rendro a'u peintio'n llachar. Mae eraill, fel Glan Nant a Bro Nant, wedi ymgorffori arddull hanner coediog Tuduraidd i'w prif waliau. Mae adeiladau hanesyddol eraill fel Eglwys St Catwg a Bryn Catwg yn arddangos waliau cerrig noeth o dywodfaen ac yn ychwanegu diddordeb gweledol gyda thywodfaen goch, carreg nadd, carreg Caerfaddon a brics naddu coch/melyn. Llechen Gymreig sydd ar doeau y rhan fwyaf o adeiladau hanesyddol y pentref a cheir cymysgedd o ffenestri adeiniog pren a ffenestri dalennog pren.

## Y Strydlun

Mae waliau cerrig yn elfen allweddol o strydlun Pentref St Catwg, gan ychwanegu diffiniad a chyfrannu at gymeriad yr amgylchedd adeiledig hanesyddol. Ceir waliau amlwg o faint gwahanol ar hyd Church Road a Penuel Road. Diffinnir Llys y Coed gan wal isel iawn o gerrig llanw, tra bo Glan Nant yn uwch, a Bro Nant yn uwch eto. Mae'r deunyddiau a ddefnyddiwyd yn dod o chwareli lleol fwy na heb, ac yn amrywio o galchfaen i dywodfaen neu garreg Radur, ac weithiau'n cynnwys cymysgedd o'r tair. Mewn nifer o achosion cafodd y waliau eu hymestyn, eu hailadeiladu a'u hatgyweirio lawer o weithiau, er enghraifft mae wal Bro Nant yn arddangos sylfaen hanesyddol o galchfaen ac estyniad modern o gerrig llanw tywodfaen coch ar ei phen.

Ymhellach i'r gogledd, mae'r ychwanegiadau modern ar groesffordd yr eglwys, fel Springfall a The Poplars, yn cynnwys waliau cerrig isel wedi eu gwneud o gerrig llanw a charreg wedi ei thorri. Mewn llawer o achosion, mae'r adeiladau hyn wedi ymgorffori nodweddion cerrig sy'n gweddu, er enghraifft, portshys cerrig, brest simnai neu gladin ar eu waliau ffrynt. Mae gan lawer o'r adeiladau hyn gatiau mynediad llydan yn torri ar draws y waliau cerrig er mwyn rhoi mynediad i gerbydau. Fodd bynnag, ceir nifer o enghreifftiau o gatiau cul i gerddwyr wedi eu gwneud o haearn bwrw, sy'n rhoi mynediad at eiddo hanesyddol fel Yr Hen Reithordy a Bryn Catwg. Mae'r rhain yn ychwanegiadau atyniadol i'r strydlun ac yn cyfrannu tuag at gymeriad y pentref.

# 3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

## Eglwys St Catwg

Eglwys St Catwg yw canolbwynt y pentref, ac fe'i cynlluniwyd felly, gan arddangos manylion pensaernïol o ansawdd uchel a nodweddion trawiadol fel tŵr gothig addurnedig a phorth mynwent amlwg. Adeiladwyd hi o gerrig llanw tywodfaen gyda pheth bandio lliw, a'i haddurno yn yr Arddull Gothig Addurnedig Ddiwygiedig. Caiff ei ffenestri dwyreiniol a gorllewinol cywrain sydd â rhwyllwaith crymlinog coeth o garreg nadd ei hailadrodd ar raddfa lai ar y waliau gogleddol a deheuol. Mae ganddi do serth ag arno lechi Cymreig gyda therfyniadau croesffurf ar bob pen.

# Yr Arddull Gynhenid

Nodweddir amgylchedd adeiledig St Catwg gan arddull bensaernïol gynhenid neu draddodiadol. Mae adeiladau yn yr arddull hon fel arfer yn syml iawn eu cynllun gyda waliau cerrig wedi eu rendro a'u peintio, yn aml gyda ffenestri dormer a ychwanegwyd yn ddiweddarach sy'n dynodi defnydd o'r lloriau uwch. Roedd Llys y Coed, Glan Nant, Bro Nant, Tŷ Rhawn, Tŷ Ffald, 'The Rock' a Castle Cottage ymysg yr adeiladau cyntaf a adeiladwyd yn y pentref ac yn arddangos y nodweddion traddodiadol hyn. Yn ogystal â'r tai uchod, mae llawer o dai allan ac adeiladau fferm y pentref hefyd yn arddangos yr arddull gynhenid ac yn pwysleisio cymeriad gwledig yr ardal.

Mae nifer o dai ar hyd Church Road wedi eu gosod gyda'u talcenni'n wynebu'r briffordd, sy'n elfen nodweddiadol o'r pentref. Mae Glan Nant, Bro Nant, Tŷ Ffald a Thŷ Rhawn a thŷ allan yr Hen Reithordy wedi eu grwpio gyda'i gilydd ar hyd Church Road ac i gyd wedi eu lleoli gyda'u talcenni'n dynn gydag ochr y ffordd. Mae'r nodwedd hon yn cyfrannu'n fawr at gymeriad yr Ardal Gadwraeth a hefyd yn helpu i amlinellu Church Road ei hun. Elfen arall sy'n nodweddiadol o'r rhan yma o'r pentref yw'r adeiladau hanner coediog. Mae llawer o'r adeiladau hyn yn cynnwys pren tywyll ar waliau gwyngalchog, gan roi arddull ffug-Duduraidd i'r rhan yma o Church Road. Fel y ffenestri dormer, byddai'r elfen hanner coediog wedi ei hychwanegu i adeiladau cynhenid hanesyddol ar gyfer dibenion addurnedig. Fodd bynnag, daeth y ddwy elfen yn rhai nodweddiadol o'r pentref ac yn aml ceir cyfeiriadau atynt yn yr ychwanegiadau modern, er enghraifft yn Curraghmore, sy'n adeilad tipyn mwy na'i gymdogion cynhenid.

Nid oes gan Fwthyn Catwg na'r Hen Reithordy yr elfen hanner coediog na thalcenni ar ochr y ffordd. Mae'r adeiladau hanesyddol hyn, sydd ar lechwedd orllewinol y dyffryn yn edrych dros Church Road, yn arddangos waliau cerrig o rendr plaen, paent llachar, a ffenestri o fframiau pren tywyll ar y llawr isaf a'r llawr cyntaf. Mae'r naill a'r llall yn cynnwys ffenestri adeiniog plwm gyda thoeau serth ac arnynt lechi Cymreig. Ynghyd â Bwthyn Catwg, cafwyd estyniadau sylweddol i 'The Rock' ond mae'r ddau le yn cadw eu harddull gynhenid. Man preswyl preifat yw the Rock erbyn hyn, er mai tŷ tafarn o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (The Rock and Castle) oedd y lle'n wreiddiol. Mae'r adeilad wedi ei osod mewn craig i'r gogledd o Eglwys St Catwg, gan arddangos waliau o rendr o blastr garw a ffenestri dalennog.

Ymhellach i'r gogledd mae tŷ tafarn y King's Arms hefyd yn dangos nodweddion o'r arddull gynhenid. Fe'i adeiladwyd yn wreiddiol yn dŷ fferm yn yr ail ganrif ar bymtheg. Mae'n Adeilad Rhestredig Gradd II ac yn arddangos elfennau tebyg i Fwthyn Catwg a'r Hen Reithordy. Ac yntau wedi ei adeiladu ar safle goleddog gyda ffrynt hir yn wynebu ochr y ffordd, ehangwyd y King's Arms tua'r gogledd a'r de ond gan gadw symlrwydd ei ffurf. Mae nifer o ffenestri dalennog corniog o bren wedi eu peintio yn torri ar draws y wal ffrynt gerrig sydd wedi ei rendro, gan ddynodi'r lloriau is ac uwch.

# Adeiladau Tirnod Fictorianaidd

Mae tri eiddo a adeiladwyd yn ystod y cyfnod Fictorianaidd yn sefyll allan yn wahanol i'r tai mwy traddodiadol cynhenid yn y pentref yn ôl eu maint, eu lleoliad a'u manylion pensaernïol. Mae Ashgrove, Bryn Catwg a Greenhurst i gyd yn fwy, wedi eu lleoli yn ôl oddi ar y briffordd o fewn tir caeëdig sylweddol ac yn cynnwys elfennau pensaernïol nodweddiadol o'r cyfnod Fictorianaidd, fel talcenni ffrynt uchel gydag estyll tywydd wedi eu peintio, simneiau brics a therfynau addurnedig. Tra bo'r adeiladau cynhenid ar hyd Church Road yn cynnwys adeiniau a beintiwyd yn dywyll gyda ffenestri plwm, mae eiddo Fictorianaidd yn dueddol o gynnwys ffenestri dalennog â phaent llachar.









- Bron Nant
- Cotsiws yr Hen Reithordy
- Talcen Glan Nant
- Ashgrove









- Greenhurst
- Golygfa o'r pentref o Castle House a'r Bwthyn
- Llwybr a wal gerrig ar hyd Church Road
- Golygfa o Catwgs Cottage a'r Hen reithordy o'r llethrau dwyreiniol

Mae waliau esmwyth Ashgrove yn cynnwys ffenestri mawr dalennog â chwe chwarel, a amgylchynir gan rendr estynedig. Mae'r to yn nodedig oherwydd ei ffrynt sydd â dwy dalcen, sy'n gyfeiriad pensaernïol i'r talcenni ar ochr y ffordd a geir mewn adeiladau eraill ar hyd Church Road. Ceir terfyniadau addurnedig ar ben y talcenni hyn ar do serth o lechi Cymreig sydd â theils addurnedig a simneiau o frics coch.

Mae gan Bryn Catwg hefyd yr elfennau addurnol hyn, a ffrynt talcennog, ond gan ymgorffori ffenestr dormer ar y ffrynt a'r ochr. Mae gan y rhain ffenestri dalennog sy'n gweddu â'r rheiny drwy weddill yr adeilad. Lleolir Bryn Catwg, fel Ashgrove, mewn llecyn mawr o dir caeëdig ar dir uchel sy'n edrych dros Church Road. Gan adlewyrchu ei agosrwydd at Eglwys St Catwg a'i hen ddefnydd fel ficerdy, mae gan Bryn Catwg waliau o dywodfaen pennant noeth, yn debyg i waliau'r eglwys. Mae'r golwg yn cael ei liniaru gan fandio o frics coch a melyn yn ogystal â naddiadau o garreg Caerfaddon.

Greenhurst yw'r unig adeilad tirnod Fictorianaidd yn yr ardal nad yw wedi ei leoli ychydig oddi ar y ffordd fawr mewn llecyn mawr o dir caeëdig. Mae'n llai trawiadol ond yn nodweddiadol serch hynny. Mae'r ffrynt o garreg wedi ei rendro â phlastr garw yn rhoi ffrynt o dair talcen i ochr y ffordd gyda drws cwfl a braced amlwg, a nifer o ffenestri dalennog o wyth cwarel o'i amgylch.

## 3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

### Lleoliad Naturiol y Dirwedd

Ychydig o fannau agored ffurfiol sydd gan Ardal Gadwraeth St Catwg ar y cyfan; fodd bynnag, rhaid gosod hyn yn erbyn ei agosrwydd at fwynderau'r cefn gwlad. Lleolir y pentref mewn dyffryn pendant, a cheir mynediad at ei lechweddau tonnog drwy bedwar hawl tramwy a arwyddir yn glir. Ar y cyfan defnyddir y tir preifat hwn ar gyfer pori; fodd bynnag, i'r de-orllewin ceir coetir sylweddol o goed collddail gydag un o'r pedwar hawl tramwy yn mynd trwyddi (gweler adran 3.2).

### Y Strydlun

Yn ardal ddeheuol yr Ardal Gadwraeth lle ceir caeau ger Church Road, ceir cloddiau cynefin yn nodi terfyn y briffordd. Ar y cyfan mae'r rhain mewn cyflwr da ac maen nhw'n amlygu lleoliad gwledig St Catwg. Ceir cloddiau tebyg ymhellach i'r gogledd, mewn mannau penodol ar hyd Penuel Road a Caerau Lane. Ceir waliau cerrig atyniadol o wahanol faint a deunyddiau ar draws yr amgylchedd adeiledig (gweler adran 3.4). Mae waliau cerrig yn elfen bwysig o strydlun St Catwg ac yn ychwanegu at gymeriad ac ansawdd y lle. Gorchuddir y ffyrdd a'r nifer cyfyngedig o lwybrau troed yn yr ardal gan darmac.

Mae gerddi ar draws yr ardal mewn cyflwr da ac wedi eu tirlunio'n atyniadol. Yn ardal ddeheuol y pentref mae'r nant droellog (Nant Gwladys) yn llifo'n agos at gefn y tai, gan greu diddordeb gweledol a chlywedol. O'r stryd, mae rhai gerddi'n guddiedig; fodd bynnag, mewn llawer o fannau mae'r hawliau tramwy cyhoeddus yn rhoi golygfeydd o'r tai, yn enwedig o'r llethrau dwyreiniol.

Atgyweiriwyd waliau tir caeëdig Eglwys St Catwg yn ddiweddar gan ategu waliau cerrig llanw tywodfaen yr eglwys. Mae ffasâd carreg yr eglwys yn cael ei liniaru gan y llecyn gwyrdd y tu allan i fynwent yr eglwys a'r coed aeddfed niferus yn y fynwent. Yn yr un modd mae ffasâd carreg noeth Bryn Catwg yn cael ei liniaru gan lawer o goed o blannwyd o fewn y tir caeëdig, gyda llawer ohonynt yn esgyn uwchben croesffordd yr eglwys. Gan greu nodwedd ddiddorol arall ar y groesffordd hon, ailadroddir naddiadau brics coch a melyn Bryn Catwg ym mhileri ei fynedfa haearn bwrw. Ar y cyfan, mae croesffordd yr eglwys yn cyfuno priodoleddau tirlunio caled a meddal, gan greu craidd atyniadol i'r pentref, sy'n elfen allweddol o gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

Ymhellach i'r gogledd, mae wal gerrig tir caeëdig Bryn Catwg yn dilyn Church Road tuag at fynedfa'r King's Arms lle ceir naddiadau brics coch a melyn unwaith eto wrth y fynedfa i gerbydau. Gan gelu Forgeside a Garej Pentyrch, ceir wal gerrig arall sydd â chloddiau sylweddol arni. I'r gogledd o hon, gwahanir Greenhurst o Church Road gan lain ymyl ac mae'r tir caeëdig yn y cefn yn cynnwys rhai coed pinwydd mawr yn debyg i'r rhai a welir ym Mryn Catwg.






• Croesfford yr Eglwys

• Y Kings Arms o Greenhurst

# Map 3 Cynllun y Treflun




Yn seiliedig ar fapiau'r Arolwg Ordnans gyda Chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu yn torri hawlfraint y Goron a gallai arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Sir Caerdydd. LA 09005L

Ffin yr Ardal Gadwraeth

Eiddo Hanesyddol Cynhenid

Eiddo Fictorianaidd

Ardal Drefol

Coetir

Gwasgle

Hawl Tramwy Cyhoeddus

Nant

Llethr SerthArdal

Golygfa

Golygfa Banoramig

Golygfa terfyn

Trem

Tirnod pwysig

Tirnod Lleol

# 4 Ardaloedd â Chymeriad Arbennig

Nodwyd dwy is-ardal ar gyfer eu hasesu'n fanylach er mwyn cael syniad cliriach o'r cyfleoedd i wella'r ardal.

## 4.1 Yr Ardal Ddeheuol

- Wedi ei chanoli ar lwybr Church Road hyd at groesffordd yr eglwys gan gynnwys yr eiddo cyfagos a'r caeau o amgylch.
- Ceir tri hawl tramwy cyhoeddus ar wahân yn rhoi mynediad i'r cefn gwlad, gan gynnwys caeau pori a choetir. Ceir arwyddion generig clir yn dynodi'r rhain.
- Heblaw am Iard Gludiant Glan Nant, mae'r holl eiddo at ddefnydd preswyl.
- Mae nifer o'r eiddo yn dyddio ers cyn 1839 ac yn dangos nodweddion yr arddull gynhenid.
- Lleolir llawer o'r eiddo gyda'u talcenni'n wynebu'r briffordd tra bo eraill wedi eu lleoli ychydig oddi ar y ffordd ac yn edrych drosti.
- Ceir nifer o ychwanegiadau modern yn ardal gyfagos croesffordd yr eglwys, ac mae llawer ohonynt yn arddangos nodweddion modern ond maent i gyd wedi eu diffinio'n glir gan waliau cerrig isel o fewn plotiau unigol sy'n wynebu'r briffordd.

## Materion

- Mae Church Road yn gul iawn mewn mannau gyda lle i draffig unffordd yn unig.
- Ychydig iawn o lwybrau troed sydd i'w cael, gan arwain at amgylchedd anghyffyrddus i gerddwyr.
- Mae ffin dynn y pentref yn rhoi pwysau ar ofynion parcio modern ar hyd Church Road. Arweiniodd hyn at greu agoriadau parcio ar hyd Church Road.
- Mae Iard Gludiant Glan Nant yn safle pwysig ac mae'r defnydd dwys ohoni yn weledol iawn, yn enwedig o lethrau dwyreiniol y dyffryn. Mae hyn yn effeithio'n negyddol ar yr Ardal Gadwraeth.
- Mae Eglwys St Catwg mewn cyflwr da ond mae diffyg deunydd deongliadol yno i nodi ei phwysigrwydd hanesyddol.

## Cyfleoedd i Wella

- Cynnal adolygiad o'r system reoli traffig bresennol a'r trefniadau parcio yn y pentref.
- Sicrhau bod unrhyw ailddatblygiad ar safle Iard Gludiant Glan Nant yn gweddu â chymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Ymchwilio cyfleoedd i gyflwyno gwybodaeth ddeongliadol i amlinellu pwysigrwydd Eglwys St Catwg.

## 4.2 Yr Ardal Ogleddol

- Yn cynnwys Penuel Road, rhan ogleddol Church Road a Castle Cottage Laneway gan gynnwys eiddo cyfagos a'r cae i'r gogledd-orllewin o Foxhollow.
- I'r gogledd o'r Ficerdy mae hawl tramwy cyhoeddus yn rhoi mynediad i'r dwyrain gan groesi tir pori a chynnig golygfeydd o'r pentref isod.
- Heblaw am y Kings Arms, Neuadd Genhadol Pentyrch a Garej Pentyrch, mae'r eiddo i gyd yn cael eu defnyddio fel llefydd preswyl.
- Mae nifer o'r eiddo yn dyddio ers cyn 1839 ac yn dangos nodweddion yr arddull gynhenid; mae eraill yn adeiladau mwy diweddar ac yn dangos nodweddion Fictorianaidd.
- Ceir nifer o ychwanegiadau modern yn yr ardal ac mae llawer ohonynt yn arddangos nodweddion modern ond maent i gyd wedi eu diffinio'n glir gan waliau cerrig isel o fewn plotiau unigol sy'n wynebu'r briffordd.

## Materion

- Mae man agored sylweddol i'r gogledd o adeiladau fferm Tyn-y-Coed yn guddiedig gan gloddiau.
- Mae meysydd parcio sydd ag wyneb dros dro fel y rheiny yn Neuadd Genhadu Pentyrch a Garej Pentyrch/Forgeside yn dyllog mewn mannau ac yn andwyo ansawdd yr ardal.

## Cyfleoedd i Wella

- Ymchwilio cyfleoedd i gynyddu gwerth amwynder y man agored i'r gogledd o adeiladau fferm Tyn-y-Coed, sy'n rhoi golygfeydd gwych tua'r de a'r dwyrain. Mae rhai dewisiadau posibl yn cynnwys agor y tir tuag at y briffordd, cyflwyno mainc gyhoeddus, a/neu gyflwyno hysbysfwrdd dehongliadol yn amlinellu pwysigrwydd hanesyddol y pentref. Dylai cynlluniau gwella o'r fath fod yn destun ymgynghori lleol.
- Annog cynllun i wella wyneb dros dro meysydd parcio'r ardal.
- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal yn gweddu â chymeriad yr Ardal Gadwraeth.

# 5 Fframwaith ar gyfer Gweithredu

Mae rhannau blaenorol o'r ddogfen hon yn disgrifio'r nodweddion a'r elfennau o ansawdd sy'n creu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth, ac yn nodi ble mae'n bosibl gwella'r ardal. Mae'r adran hon yn amlinellu'r ffyrdd y gellir defnyddio'r ddogfen er budd yr Ardal Gadwraeth.

## 5.1 Prif Bwrpas y Gwerthusiad

Unwaith y caiff ei fabwysiadu, bydd y gwerthusiad a'r canllawiau'n cael eu defnyddio i wneud y canlynol:

- Creu cynllun gwella i arwain datblygiadau yn yr ardal.
- Hysbysu'r asesiadau o geisiadau cynllunio yn unol â Pholisi 2.53 y Cynllun Datblygu Unedol a gyflwynwyd hyd nes y caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei fabwysiadu.
- Gosod blaenoriaethau ar gyfer rheoli tir y cyhoedd yn y dyfodol.
- Rhoi canllawiau ar ansawdd arbennig yr ardal a sut i'w diogelu.

## 5.2 Manteision y Gwerthusiad

Rhagwelir y bydd y gwerthusiad a fabwysiedir yn dod â'r manteision canlynol i'r ardal.

- Cadw a gwella cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth drwy gadw, gwella a chynnal a chadw'r nodweddion a nodwyd yn y gwerthusiad sy'n cyfrannu at ei chymeriad.
- Cynyddu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad cyhoeddus o gymeriad arbennig yr ardal a'i hanes diwydiannol cyfoethog.
- Rhoi canllawiau i berchnogion a deiliaid eiddo yn Ardal Gadwraeth St Catwg.
- Darparu cymorth i berchnogion eiddo lleol ac i grwpiau, mentrau ac arweinwyr cymunedol yn eu hymdrechion i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth a'i chadw'n ardal ddeniadol i fyw ynddi.
- Annog a chynghori ynghylch atgyweiriadau a gwelliannau cywir.
- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd yn parchu cymeriad yr ardal ac yn cyd-fynd yn dda gyda'r ffurfiau a'r cynlluniau presennol.
- Creu cynllun gwella i arwain mwynhad o'r ardal yn y dyfodol.
- Sicrhau bod gwelliannau i dir y cyhoedd yn cael eu cyflawni gan barchu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

## 5.3 Pwysau i Newid

Mae cryn dipyn o bwysau a gofynion sy'n gweithio yn erbyn cadw a gwella Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pwysau parhaol i addasu ac ymestyn adeiladau a gerddi.
- Galw parhaol am lefydd parcio ar strydoedd, a hynny'n amharu ar y traffig.
- Colli tirwedd feddal a chaled gan gynnwys waliau ffiniol, cloddiau, ymylon glaswelltog, gerddi a choed.

- Pwysau i newid adeiladau a thai er mwyn cyflawni amcanion eraill, er enghraifft, gwell effeithlonrwydd ynni, a diogelwch tai.
- Tagfeydd traffig, a defnydd trwm o Church Road yn ystod yr oriau traffig brig.
- Cynllun a lleoliad arwyddion ffyrdd, dodrefn stryd ac arwyddion hyrwyddo.

## 5.4 Cydweithio i Sicrhau Canlyniadau

### Perchnogion Eiddo a Datblygwyr

Y ffordd fwyaf effeithiol o wella Ardal Gadwraeth yw sicrhau bod y rheiny sy'n cynllunio gwaith neu ddatblygiadau yn deall cymeriad yr ardal. Mae Adran 3 y ddogfen hon yn amlinellu'r cymeriad hwnnw, a cheir canllawiau penodol yn yr atodiad sy'n rhoi cyngor am ddiogelu adeiladau mewn cynlluniau datblygu. Ceir cyngor hefyd i'r rheiny sy'n ystyried gwneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

### Y Cyngor

Er bod Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol i baratoi cynllun ar gyfer gwella Ardal Gadwraeth, nid oes cyllideb na dull penodol ar gael i gyflawni hyn. Mae hyn yn golygu, er mwyn sicrhau gwelliannau, bod yn rhaid gweithio ar y cyd â Gwasanaethau eraill yn y Cyngor neu mewn partneriaeth â'r gymuned a chyrff cyhoeddus eraill.

Drwy'r cynlluniau canlynol, gallai'r Cyngor fod yn allweddol wrth ddylanwadu ar welliannau a'u rhoi ar waith.

1. Mabwysiadu'r canllawiau a'r cyfleoedd i wella a nodwyd yn Atodiad 1 a 2.

2. Rheoli cyllidebau'r Cyngor yn effeithiol er mwyn gwella tir y cyhoedd.

- Atgyweirio tai;
- Cymorth grant i wella effeithlonrwydd ynni mewn tai
- Priffyrdd a Thrafnidiaeth – Gwella, atgyweirio ac ehangu llwybrau troed a ffyrdd.
- Hamdden, Llyfrgelloedd a Pharciau – Gwaith adfer ar goed sy'n eiddo i'r Cyngor, a phlannu coed newydd ble mae galw;
- Cynlluniau Adnewyddu Cymdogaethau

3. Hyrwyddo dealltwriaeth o arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol Ardal Gadwraeth St Catwg, a hynny drwy'r Cyngor Cymuned, cyrff crefyddol, ysgolion, llyfrgelloedd a grwpiau cymunedol eraill.

## 6. Argymhellion

**Mae'r argymhellion canlynol yn crynhoi canfyddiadau'r Gwerthusiad a'r camau gweithredu y gellir eu cymryd ar ôl ei fabwysiadu.**

- Argymhellir cyhoeddi'r canllawiau yn Atodiadau 1 a 2 a'u dosbarthu i'r rheiny sy'n byw yn yr Ardal Gadwraeth neu sydd â diddordeb ynddi.

- Cadarnhau mai'r Gwerthusiad a'i argymhellion a'i flaenoriaethau gweithredu yw'r sylfaen ar gyfer mentrau corfforaethol yn yr Ardal Gadwraeth.

- Sicrhau bod y Gwerthusiad yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio yn unol ag Adran 72 y Ddeddf.

- Sefydlu gwell cyfathrebu gyda'r Cyngor Cymuned, grwpiau a thrigolion lleol mewn partneriaeth â'r Grŵp Cynghori ar Ardaloedd Cadwraeth Gorllewin Caerdydd.

- Sicrhau bod y gwerthusiad ar gael i'w astudio yn y llyfrgelloedd a'r ysgolion lleol.

- Cytuno ar gynllun priodol ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw er mwyn sicrhau bod gwaith a gynhelir ar dir y cyhoedd yn gydnaws â chymeriad yr Ardal Gadwraeth.

- Mabwysiadu'r ffin newydd a argymhellir yn Adran 2 a hysbysebu hynny'n unol â'r Ddeddf.

## 7. Ymgynghoriad

**Mabwysiadwyd y ddogfen hon yn dilyn ymgynghori lleol.**

Cysylltwch â'r Tîm Cadwraeth ar 029 2087 3485 i gael gwybodaeth am Adeiladau Rhestredig a dogfennau eraill sy'n ymwneud â pholisi cynllunio.

# atodiad 1

## Canllaw i Berchnogion Tai a'r Rheiny sy'n Cynllunio Datblygiadau yn yr Ardal Gadwraeth

**Mae'r canllawiau hyn wedi'u paratoi ar gyfer y rheiny sy'n ystyried gwneud gwaith i atgyweirio neu addasu eu tai neu eu heiddo. Mae'r canllawiau wedi'u paratoi i barchu a gwella'r cymeriad a nodir yn y gwerthusiad hwn.**

### Caniatâd

Rhestrwyd nifer o adeiladau/adeileddau yn yr Ardal Gadwraeth yn adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Rhaid i berchnogion yr eiddo hyn hefyd gael Caniatâd Adeilad Rhestredig, drwy'r Awdurdod Cynllunio Lleol, cyn newid, ymestyn neu ddymchwel unrhyw ran o adeilad, yn fewnol neu'n allanol, mewn modd a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar ei nodweddion pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

Ar gyfer adeiladau sydd heb gael eu rhestru, efallai y bydd angen caniatâd cynllunio cyn ymgymryd â rhai mathau o waith. Gall swyddog cynllunio gynghori ynghylch a oes angen caniatâd ar eich cynigion.

Efallai hefyd y bydd angen i chi gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu. Bydd modd i swyddog rheoli adeiladu roi cyngor i chi am y rheoliadau.

### Prif Egwyddorion

Dyma'r prif egwyddorion y dylid eu dilyn wrth ystyried ymgymryd ag unrhyw newidiadau ar adeiladau hanesyddol:

- Atgyweirio yn hytrach nac ailosod
- Os nad oes modd osgoi ailosod, dylid defnyddio deunyddiau 'tebyg at ei debyg'.
- Os nad yw deunyddiau tebyg at ei debyg ar gael, efallai bydd datrysiadau cyfoes yn dderbyniol.
- Dylid osgoi dyluniadau 'pastiche', sy'n copïo'r dyluniad hanesyddol ond sy'n ymddangos yn y diwedd fel rhywbeth sydd wedi ei osod ar ben y gwreiddiol.
- Os yw nodweddion gwreiddiol eisoes wedi eu colli a bod angen rhagor o waith atgyweirio, caiff adfer y nodweddion gwreiddiol ei annog.

### Gorffeniad/Gwaith Cerrig ar Waliau

Mewn Ardaloedd Cadwraeth, mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer trin wyneb unrhyw wal a fydd yn newid ymddangosiad yr eiddo ac ni chaiff cais i dynnu rendr neu newid ei ymddangosiad hanesyddol ei ganiatáu.

Y gorffeniad mwyaf cyffredin yn yr Ardal Gadwraeth yw carreg wedi ei rendro er bod rhai enghreifftiau o waliau cerrig noeth. Ar eiddo sydd wedi ei rendro, defnyddir amrywiaeth o rendr garw ac esmwyth fel arfer a'u peintio'n llachar, yn wyn neu'n hufen. Ar lawer o eiddo hanesyddol ceir arddull hanner coediog Tuduraidd ar eu waliau. Mae'r rhain yn elfennau allweddol o'r Ardal Gadwraeth a dylid eu cadw.

Mewn eiddo sydd â waliau cerrig noeth neu waliau cerrig ffiniol, mae'n hanfodol ail-bwyntio ac atgyweirio'r cerrig presennol mewn modd sy'n briodol â'r dull adeiladu gwreiddiol. Argymhellir defnyddio morter calch, gan fod sment trwm yn achosi problemau o ran cadw lleithder mewn waliau cerrig traddodiadol.

## Ffenestri a Drysau

Rhoi drysau ac yn enwedig ffenestri newydd yw un o'r problemau dylunio mwyaf anodd. Fel arfer, drysau pren a ffenestri dalennog pren sydd i'w cael yn Ardal Gadwraeth St Catwg, ond ceir rhai enghreifftiau o ffenestri casment plwm. Mae'r rhain i gyd yn nodweddion pwysig sy'n cyfrannu at gymeriad yr Ardal Gadwraeth a dylid eu cadw os yn bosibl. Os yw ffenestri neu ddrysau pren yn dirywio, mae eu hatgyweirio yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol ac yn aml yn rhatach na'u hailosod yn llwyr. Mae cadw'r nodweddion gwreiddiol hefyd yn cynnal cymeriad hanesyddol yr adeilad.

Mae'r cyngor canlynol yn berthnasol i ddrysau a ffenestri mewn estyniadau ac wrth osod rhai newydd mewn adeiladau presennol.

- Os yw'n bosibl, dylid cadw'r ffenestri a'r drysau gwreiddiol; possible;
- Os oes angen ffenestri newydd dylent adlewyrchu arddull, deunyddiau gwreiddiol a'r dull gwreiddiol o agor y ffenestri gwreiddiol a osodwyd yn yr eiddo a phatrwm gwreiddiol y ffenest.
- Nid yw ailosod ffenestri UPVC yn cael ei annog oherwydd eu bod yn ffenestri mwy trwchus, gan felly golli ysgafnder y ffenestri dalennog pren.
- Dylai drysau newydd adlewyrchu arddull a deunyddiau'r drysau a osodwyd yn wreiddiol, sef drysau pren syml ar y cyfan gydag ychydig o le i wydr yn unig.

Gall y Tîm Cadwraeth yn yr Adran Cynllunio Strategol gyflenwi enwau seiri coed a gwneuthurwyr ffenestri a drysau pren arbenigol. Gall y tîm hefyd roi cyngor am fanylion gwaith saer. Mae rhagor o gyngor am atgyweirio ffenestri a gosod rhai newydd ar gael mewn cyhoeddiad ar wahân, 'Atgyweirio a Ffenestri Newydd mewn Ardaloedd Cadwraeth' sydd ar gael gan y Tîm Cadwraeth yn yr adran Cynllunio Strategol a gellir ei lwytho o www.caerdydd.gov.uk

## Ffenestri Dormer a Ffenestri To

Mae ffenestri dormer yn nodwedd bensaernïol allweddol o nifer o adeiladau hanesyddol yr Ardal Gadwraeth, yn enwedig y rheiny sydd mewn eiddo hanner coediog ffug-Duduraidd. Er mwyn caniatáu dormerau mewn lleoliad, rhaid iddynt beidio â chael effaith niweidiol ar gymeriad tŷ unigol neu Ardal Gadwraeth, a rhaid iddynt barchu graddfa'r tŷ, diogelu cymeriad ffurf bresennol y to, a diogelu ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

Efallai y bydd ffenestri to traddodiadol yn dderbyniol mewn lleoliadau nad ydynt yn rhy amlwg, yn hytrach na dormer. Yn y lleoliadau hyn, dylai dyluniad ffenestri to fod yn sensitif – mor gyfwynebol â'r to â phosibl. Nid yw ffenestri to modern mewn fframiau dwfn, sy'n torri ar linell wyneb y to, yn addas.

## Toeau a Thalcenni

Mae'r eiddo yn yr Ardal Gadwraeth yn dueddol o gynnwys toeau syml ar ongl, gyda rhai ohonynt ar ongl serth, ac mae bron iawn bob un ohonynt wedi eu gorchuddio â llechi Cymreig. Dylai cynigion ar gyfer ail-doi barchu ongl wreiddiol y to a dylid defnyddio deunyddiau toi gwreiddiol. Os yw ailosod yn angenrheidiol, deunyddiau newydd sy'n gweddu â'r deunyddiau gwreiddiol yw'r ffordd orau i ddiogelu cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Wrth ail-doi, mae'n bwysig hefyd defnyddio llechi o'r un maint ac ansawdd â'r gwreiddiol, a dilyn lled a phatrwm y cwrs.

Mae gorweddiad yr eiddo ac, yn benodol, lleoliad eu talcenni yn elfen allweddol o gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Mae nifer o eiddo ar hyd Church Road wedi eu grwpio gyda'i gilydd, gyda'u talcenni'n wynebu'r briffordd. Mae hon yn elfen nodedig o'r strydlun a dylid ei chadw os yn bosibl. Dylai cynigion ar gyfer datblygiadau newydd ar hyd Church Road barchu hyn.
Nid yw teils to addurnedig, terfyniadau ac estyll tywydd addurnedig yn nodweddion o'r arddull gynhenid; fodd bynnag ceir nifer o eiddo o'r cyfnod Fictorianaidd sy'n cynnwys y rhain ar eu toeau. Mae'r elfennau hyn yn nodweddion pwysig o'r arddull Fictorianaidd, gan eu gwneud yn wahanol i'r eiddo a adeiladwyd yn gynharach. Os yn bosibl dylid cadw elfennau o'r fath.

## Simneiau

Simneiau cerrig wedi eu rendro sydd gan y rhan fwyaf o adeiladau'r pentref ond mae rhai wedi eu hadeiladu o frics coch. Mae simnai yn nodwedd weledol bwysig o adeilad ac yn cyfrannu tuag at effaith weledol grwpiau o adeiladau a'u hamlinell yn yr awyr. Os bydd simnai sy'n cyfrannu at gymeriad eiddo neu Ardal Gadwraeth yn anniogel a bod angen ei hatgyweirio, dylid ei hailadeiladu i'r un uchder a chynllun â'r gwreiddiol, hyd yn oed os nad yw'n cael ei defnyddio bellach. Dylid gwneud pob ymdrech i ailddefnyddio deunyddiau gwreiddiol y simnai; fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl dylid defnyddio deunyddiau replica er mwyn ailadeiladu ar sail 'tebyg at ei debyg.'

Os yw adeilad wedi ei restru, bydd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig a Chaniatâd Cynllunio i ddymchwel simnai. Os yw simneiau yn mynd yn segur mae hi'n bwysig sicrhau cymryd camau i gynnal y gwaith brics/cerrig a'r morter neu'r rendr, pa un bynnag sy'n briodol. Dylid cadw'r potiau simnai gwreiddiol os ydynt yn dal yn ddiogel a chadarn. Gall gard tywydd priodol awyru'r simnai a gwarchod rhag lleithder yn y frest.

## Portshys a Chanopïau

Mae portshys yn nodwedd bwysig ar waliau tai a dylid parchu'r manylion a geir ynddynt o hyd. Dylai cynigion ar gyfer portshys a chanopïau newydd roi ystyriaeth i unrhyw linellau adeiladu gwreiddiol ynghyd â chynllun gwreiddiol yr eiddo neu'r grŵp o adeiladau dan sylw.

## Dyfeisiadau Ynni Adnewyddadwy, Offer Cyfathrebu ac Offer Diogelwch

Gall gosod offer ychwanegol ar adeiladau, am ba bynnag reswm, gael effaith sylweddol ar gymeriad Ardal Gadwraeth. Os bydd yr offer hwnnw mewn lle anaddas, gall sawl achos gyda'i gilydd ddwysáu'r effaith a niweidio cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Os oes angen caniatâd cynllunio, mae'n annhebygol y bydd offer o'r fath ar waliau ffrynt a waliau ochr amlwg yn dderbyniol. Mae waliau cefn neu dai allan yn aml yn lleoliadau mwy addas, cyn belled nad ydynt yn rhy amlwg nac yn niweidio cymeriad neu ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth. Os yw'r math hwn o offer wedi'i leoli mewn mannau anaddas ar hyn o bryd, dylid cael gwared arno pan fydd cyfle.

## Estyniadau a Datblygiadau Newydd

Boed y cynllun yn un traddodiadol neu fodern, er mwyn i ddatblygiadau newydd ac estyniadau i adeiladau presennol fod yn llwyddiannus mewn Ardal Gadwraeth, mae angen deall cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

Dylai estyniadau i adeiladau presennol a datblygiadau newydd yn yr Ardal Gadwraeth gadw neu wella cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth yn y ffyrdd canlynol:

- Parchu ansawdd unigryw y lle.
- Parchu'r graen trefol presennol.
- Cadw golygfeydd i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth.
- Parchu defnydd presennol y tir.
- Atgyfnerthu hierarchaeth bresennol mannau cyhoeddus a phreifat.
- Defnyddio deunyddiau a manylion pensaernïol o ansawdd yr un mor uchel â'r rheiny sydd yn yr adeiladau presennol.

Mae materion cynllunio mwy cyffredinol i'w hystyried hefyd. Er enghraifft, mae angen rhoi sylw i effaith unrhyw ddatblygiadau newydd ar amwynderau cyfagos, yn benodol o ran datblygiadau uwch ar y llethr, colli golau a datblygiadau gormesol. Gan fod dylunio estyniadau llwyddiannus yn gofyn am wybodaeth am y math o adeilad dan sylw ac ymdriniaeth sensitif o'r maint a'r manylion, mae'n syniad da defnyddio pensaer sydd â gwybodaeth a phrofiad o'r math hwn o waith. Am amlinelliad cyffredinol o'r egwyddorion dylunio, mae dogfen Canllawiau Cynllunio Atodol ynghylch Dylunio Tai ar gael i'w lwytho o www.caerdydd.gov.uk

Gall estyniadau, newidiadau a datblygiadau newydd gael oblygiadau ar dirweddu meddal neu galed neu ar goed. **Mae cyngor am hyn yn Atodiad 2 Cyngor am Goed a Thirlunio.**

# atodiad 2

## Cyngor am Dirlunio a Choed

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i faterion tirlunio gan gynnwys coed, parcio, gerddi, lleiniau ymyl, cloddiau, waliau a gatiau. Mae amryw o nodweddion tirlunio fel lleiniau ymyl, cloddiau a gerddi preifat i gyd yn cyfrannu at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth. Mae'r ystyriaethau perthnasol wedi'u nodi isod os ydych chi'n cynllunio gwaith sy'n ymwneud â'r nodweddion hyn.

## Coed

Mae coed mewn Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu diogelu. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i wneud gwaith ar goed sy'n fwy na 7.5 centimedr (tua 3 modfedd) o ddiamedr, ar bwynt sydd 1.5 metr (tua 5 troedfedd) o uchder. Yn benodol, rhaid i chi roi 6 wythnos o rybudd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'ch bwriad i wneud y gwaith. Bydd yr Awdurdod yn caniatáu gwaith os bydd hynny o fudd i'r coed, a gall ganiatáu gwaith hefyd os bydd y manteision yn fwy na'r difrod i'r coed. Os nad yw'n rhoi caniatâd gall yr Awdurdod roi Gorchymyn Cadw Coed i atal y gwaith. Os na fydd yr Awdurdod yn ymateb o fewn chwe wythnos, gellir gwneud y gwaith beth bynnag. Mae'r cosbau y gall y llys eu rhoi am beidio â chyflwyno'r cais yn rhai difrifol - yr un mor ddifrifol â'r cosbau y gellir eu rhoi os byddai'r coed yn destun Gorchymyn Cadw Coed.

Nid yw gwaith yn golygu torri neu ddymchwel coeden yn unig, ond tocio neu ddifrodi gwreiddiau a changhennau hefyd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Er enghraifft, dylid gwneud cais os ydych chi'n bwriadu addasu lefel y pridd ger coed, neu osod wynebau anhydraidd, fel llwybr newydd. Byddai'n drosedd hefyd difrodi coed drwy lygru eu hamgylchedd, er enghraifft rhoi chwynladdwr dail llydan ar lawnt gyfagos. Mae sawl eithriad rhag gorfod cael caniatâd, yn enwedig yn achos coed sy'n marw, wedi marw, neu'n beryglus. Fe'ch cynghorir, oni bai bod perygl y funud honno, i ffonio Swyddog Cadw Coed cyn tybio fod un o'r eithriadau hyn yn berthnasol. Fel rheol, bydd angen ailosod coed a ddymchwelir yn anghyfreithlon, neu a ddymchwelir heb fod eithriad yn berthnasol. Os yw'r gwaith dan sylw yn ymwneud â datblygiad sydd angen caniatâd cynllunio, dylech gynnwys y manylion yn y cais cynllunio. Drwy wneud hynny, ni fydd yn rhaid i chi wneud cais ar wahân o dan y rheoliadau sy'n diogelu coed – bydd yr holl faterion yn cael eu hystyried gyda'i gilydd.

Os oes gennych chi goeden fawr neu amlwg, fe'ch cynghorir yn gryf i gael cyngor gan feddyg coed o dro i dro ar gyfer ei rheoli yn y tymor hir. Bydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth deg i farn meddyg coed cymwysedig wrth ystyried ceisiadau. Rheolir coed ar briffyrdd, neu mewn parciau, gan Wasanaethau Parciau'r Cyngor, ac maent yn destun cyfundrefn reoli tymor hir a arolygir gan arbenigwr coed.

## Ailblannu Coed sy'n Dirywio

Mae hi'n bwysig ailblannu coed newydd os yw coed yn dirywio. Dylid plannu coed newydd wrth i'r hen goed gael eu dymchwel. Dylai'r holl goed fod yn rhywogaethau priodol. Dylai Swyddogion Cadw Coed allu'ch cynghori am rywogaethau priodol ar gyfer eich sefyllfa benodol chi.

## Gerddi

Mae gerddi ffrynt gyda glaswellt a chloddiau yn cyfrannu at naws arbennig yr Ardal Gadwraeth. Mae creu cwrt blaen o wyneb caled yn lleihau ardaloedd glaswelltog, gwelyau blodau a chloddiau, ac yn aml yn arwain at golli gardd gyfan sy'n niweidio cymeriad yr ardal. Felly, ni ddylid creu cyrtiau blaen o'r fath.

## Parcio mewn Gerddi Ffrynt

Mae creu llefydd parcio o fewn talar tai unigol yn gallu arwain at golli gerddi ffrynt a nodweddion ar ffiniau'r gerddi fel cloddiau a waliau cerrig, sy'n nodweddion pwysig. Ni ddylid colli nodweddion o'r fath.

Os oes lle am garej, dylid ei ddylunio fel ei fod yn gweddu â'r tŷ ac mewn modd nad yw'n amharu ar yr ardal gyffredinol.

## Ffiniau Tir Caeëdig a Gatiau

Dylid ystyried ffiniau gerddi yn estyniad o'r adeilad y maent yn ei warchod. Maent yn rhoi diffiniad a chymeriad i olwg y stryd. Dylai unrhyw fath o waliau newydd geisio cyflawni'r un amcanion.

Mae cloddiau'n boblogaidd fel ffiniau yn yr Ardal Gadwraeth ac yn cyfrannu'n sylweddol at y tirlunio meddal. Wrth gynnal a chadw ac adfer cloddiau, mae hi'n bwysig plannu rhywogaethau sy'n cyd-fynd â chymeriad yr ardal. Efallai y bydd Swyddogion Cadw Coed yn gallu rhoi cyngor i chi am y rhywogaethau sy'n addas i'ch sefyllfa benodol chi. Wrth i gloddiau dyfu gall ffensys pyst a gwifrau neu rwyll fod yn ffordd dderbyniol o ddiogelu'r ardd.
Dylai waliau ffiniol adlewyrchu cymeriad yr ardal. Ceir amryw o waliau cerrig llanw traddodiadol yn yr ardal, gyda rhai ohonynt yn waliau cerrig sychion. Dylai waliau o'r fath gael eu hatgyweirio a'u cynnal a'u cadw i sicrhau bod y gwaith carreg a'r morter yn parchu'r strwythur gwreiddiol. Mae hi'n hanfodol bod y garreg bresennol yn cael ei chynnal neu ei hailbwyntio mewn modd sy'n briodol â'r dull adeiladu gwreiddiol. Os oes angen ail-bwyntio, argymhellir defnyddio morter calch, gan fod sment trwm yn achosi problemau o ran cadw lleithder mewn waliau cerrig traddodiadol.

Ar y cyfan nid yw rheiliau yn gyffredin fel ffiniau tir caeëdig yn yr Ardal Gadwraeth; fodd bynnag, ceir nifer o gatiau haearn bwrw, sy'n ychwanegu at gymeriad yr ardal, a dylid eu cadw os yw hynny'n bosibl.  Os oes angen eu hailosod, dylid defnyddio giât o gynllun ac ansawdd tebyg.

Dylid osgoi defnyddio deunyddiau modern fel concrid a ffensys pren.

Os yw gatiau gerddi a drysau yn rhan o ffin dylent adlewyrchu maint a'r manylion/arddull pensaernïol a ddefnyddir ar y prif adeilad.

## Tirlunio

Gall estyniadau i eiddo a datblygiadau newydd gael goblygiadau ar dirlunio meddal. Er mwyn cadw cymeriad yr ardal, os gwneir unrhyw ddatblygiadau, dylid cadw elfennau allweddol y tirlunio meddal a gweithredu mesurau diogelu priodol er mwyn sicrhau eu bod yn goroesi yn ystod ac ar ôl gwneud y gwaith.

Mae rhai datblygiadau'n rhoi cyfleoedd ar gyfer tirlunio meddal a dylid annog hynny. Dylid dylunio cynlluniau tirlunio meddal mewn ffordd sy'n gweddu i gymeriad yr ardal.

## Lleiniau Ymyl

Mae lleiniau ymyl yn ychwanegu at gymeriad yr ardal a dylid eu cadw.

## Adolygiad o'r Ffin

Un o elfennau allweddol Gwerthusiad o Ardal Gadwraeth yw adolygu ei ffiniau. Prif bwrpas adolygu'r ffiniau yw sicrhau bod yr Ardal Gadwraeth yn parhau i arddangos nodweddion pensaernïol a hanesyddol amlwg.

Mae'r asesiad wedi canolbwyntio ar ardaloedd a allai gael eu cynnwys neu eu hepgor o'r Ardal Gadwraeth, er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn un cadarn a dilys, a'i fod yn dynodi ardal sydd â chymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig.

## Y Ffin Bresennol

Ar hyn o bryd, mae ffin yr Ardal Gadwraeth yn adlewyrchu rhesymeg y dynodi gwreiddiol yn 1973. Ar y cyfan mae'r ffin yn parhau'n briodol i'r pentref hanesyddol heddiw, gan ddilyn cefnlen y dyffryn ar hyd ffiniau'r caeau agosaf at y cefnennau hynny. Yn y de, mae'n cynnwys Foxfield House a Llys y Coed ac yn y gogledd mae'n cynnwys Greenhurst a Castle Cottage.

## Ardaloedd a Ystyriwyd ar gyfer eu Cynnwys

O ystyried bod amgylchedd adeiledig hanesyddol pentref St Catwg yn ei gyfanrwydd o fewn ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth, ystyrir y byddai cynnwys ardaloedd trefol cyfagos, a nodweddir gan amlaf gan dai swbwrbaidd modern, yn amhriodol. Yn ogystal, lluniwyd y ffiniau dwyreiniol a gorllewinol er mwyn dilyn cefnlennau adnabyddadwy'r dyffryn a chydnabyddir bod y caeau goleddol o fewn y ffin yn rhan bwysig o leoliad a chyfyngiant yr ardal. Ystyrir felly na fyddai cynnwys ardaloedd gwledig cyfagos yn yr Ardal Gadwraeth yn briodol.

## Ardaloedd a Ystyriwyd ar gyfer eu Hepgor

Ers y dynodi, datblygwyd dwy ardal ar yr ymylon: Sef:

- Foxfield House
- Cefn Llan

Mae **Foxfield House** yn ychwanegiad gweddol fodern i Ardal Gadwraeth St Catwg. Nid yw'n ymddangos ar fapiau hanesyddol yr Arolwg Ordnans o'r ardal; fodd bynnag, mae ei blot yn ymddangos yn ardd i Llys y Coed (Cwm Ffwch gynt) ym map 1878 yr Arolwg Ordnans. Er ei fod yn cynnwys nodweddion modern, mae ei faint, maint y plot a'i unigolrwydd yn gweddu â chymeriad yr Ardal Gadwraeth ac felly nid oes rheswm dros ei hepgor o'r Ardal Gadwraeth.


Mae **Cefn Llan** hefyd yn ychwanegiad gweddol fodern i'r Ardal Gadwraeth ac nid yw'n ymddangos ar fapiau hanesyddol yr Arolwg Ordnans o'r ardal. Wedi ei leoli ar safle hen Neuadd yr Eglwys, mae'r datblygiad modern yn cynnwys pum tŷ ar wahân mewn arddull, deunyddiau a chynllun tebyg. O ystyried mai prif batrwm adeiladau'r Ardal Gadwraeth yw tai mewn arddull unigol mewn plotiau unigol sy'n wynebu'r briffordd, ystyrir bod Cefn Llan ar wahân i'r Ardal Gadwraeth, ac nad yw'n gweddu â chymeriad yr Ardal Gadwraeth. Yn yr ystyr hwn nid yw'r datblygiad yn cyd-fynd â'r meini prawf a nodwyd ar gyfer asesu Ardaloedd Cadwraeth. O ran rheoli'r Ardal Gadwraeth, byddai'r ychwanegiad modern hwn yn anodd i'w orfodi a gallai danseilio hygrededd yr Ardal Gadwraeth yn ei chyfanrwydd. Am y rhesymau hyn, cynigir newid y ffin gan hepgor Cefn Llan.





- Foxfield House
- View of Cefn Llan from Penual Road

# Map y Ffin a'r Dynodi




Yn seiliedig ar fapiau'r Arolwg Ordnans gyda Chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu yn torri hawlfraint y Goron a gallai arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Sir Caerdydd. LA 09005L

# atodiad 4

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Carreg nadd** | Blociau sgwâr o garreg lefn. |
| **Estyll Tywydd** | Byrddau pren a osodwyd ar dalcen to. |
| **Y Llinell Adeiladu** | Llinell adnabyddadwy y lleolir eiddo ynddi. |
| **Rheoliadau Adeiladu** | Rheolau cyfreithiol neu statudol sy'n rheoli ansawdd adeiladau. Eu bwriad yw sicrhau diogelwch ac iechyd y cyhoedd, a safonau adeiladu derbyniol gofynnol. |
| **Cadw** | Adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| **Cladin** | Gorchuddion ar waliau allanol |
| **Copihowld** | Math o ddaliadaeth faenorol a elwid hefyd yn 'ddaliadaeth gyffredin'. |
| **Ardal Gadwraeth** | Ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, gyda dyhead i ddiogelu neu wella ei chymeriad neu ei hymddangosiad. |
| **Cyd-destun** | Lleoliad adeilad neu ofod, ei safle, ei amgylchedd naturiol, neu ei gymdogaeth. |
| **Talar** | Ardal o dir sy'n amgylchynu eiddo o fewn ei ffiniau. |
| **Ffenestri Dormer** | Ffenest gyda tho wedi ei gosod ar do goleddol. |
| **Talcen** | Wal adeilad, y rhan uwch sy'n cynnal y to, siâp triongl. |
| **Adeilad rhestredig** | Adeilad neu adeiledd arall sydd o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol penodol ac sy'n cael ei ddiogelu'n statudol gan Cadw. |
| **Porth Mynwent** | Gât â tho, sy'n do goleddog fel arfer, a geir wrth brif fynedfa i fynwent eglwys. |
| **Morter** | Deunydd sy'n cael ei ddefnyddio wrth adeiladu i lenwi'r bylchau rhwng cerrig neu frics a'u glynu wrth ei gilydd. |
| **Rendr** | Gorchudd plastr, calch neu sment. |
| **Ail-bwyntio** | Atgyweirio'r uniad rhwng gwaith cerrig. |
| **Teils crib** | Teils sy'n gorchuddio pwynt uchaf to. |
| **Carreg wyneb y graig** | Carreg naturiol heb ei rendro, sy'n aml yn dangos toniadau ac ansawdd naturiol. |
| **Ffenestr do** | Agoriad â gwydr arno mewn to. |
| **Plastr garw** | Rendr garw. |
| **Cerrig llanw** | Cerrig o siâp a maint afreolaidd. |
| **Graddfa** | Maint cymharol gwrthrych. |
| **Man lled gyhoeddus** | Man y gall y cyhoedd gael mynediad ato, ond nid 24 awr y diwrnod. |

| | |
|---|---|
| **Lleoliad** | Safle / lleoliad. |
| **Y Strydlun** | Golwg cyffredinol y stryd o lefel y stryd. |
| **Gorchymyn Cadw Coed** | Gorchymyn sy'n diogelu coed sydd wedi'u nodi yn y gorchymyn. Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud hi'n drosedd i dorri, tocio, dadwreiddio, niweidio neu ddinistrio coeden a nodir yn y Gorchymyn, neu ganiatáu i hyn ddigwydd, heb wneud cais am ganiatâd ffurfiol gan yr Awdurdod Lleol. |
| **Arddull Duduraidd hanner coediog** | Yn cynnwys pren ar waliau adeiladau, gan ddynwared adeiladau'r cyfnod Tuduraidd. |
| **Cynllun Datblygu Unedol** | Cynllun Datblygu Unedol. |
| **Golygfa** | Golygfa canolig i bell. |

# Cyfeiriadau


- Buildings of Wales: Glamorgan. J Newman, Penguin Books, 1995
- The Illustrated History of Cardiff's Suburbs. D Morgan, Breedon Books, 2003
- Pentyrch, Creigiau and Gwaelod y Garth. Cymdeithas Hanes Lleol Pentyrch a'r Cyffiniau, 1997.
- Llyfryn Cofrodd, Neuadd Bentref Pentyrch. Llewellyn, 1976.
- Glamorgan Historian Vol 1 – Williams, S., 1963.
- Cynllun Datblygu Unedol Caerdydd (Datganiad Ysgrifenedig Adneuol). Cyngor Dinas Caerdydd, 2003
- Cynllun Lleol Taf Elái, Drafft Adneuol Cyngor Bwrdeistref Taf Elái, 1995.
- Cynllun Datblygu Unedol Caerdydd (a Gyflwynwyd) Cyngor Dinas Caerdydd, 2003
- Cynllun Lleol Creigiau, Pentyrch a Gwaelod-y-garth. Cyngor Bwrdeistref Taf Elái. Chwefror 1992.
- Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth Cyngor Dinas Caerdydd, 1997
- Cynllun Strwythur Sir Morgannwg Ganol, Cyngor Sir Morgannwg Ganol, 1989
- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Cylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig – Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol
- Canllaw Dylunio i Ddeiliaid Tai. Cyngor Dinas Caerdydd, 2007


# Diolchiadau


- Grŵp Cynghori Ardaloedd Cadwraeth y Gogledd Orllewin
- Cyngor Cymuned Pentyrch
- Cymdeithas Hanes Lleol Pentyrch a'r Cyffiniau
- Archifdy Morgannwg
- Cadw


# Manylion Cyswllt a Gwybodaeth:


**Cynllunio Strategol**
**Dinas a Sir Caerdydd, Ystafell CY4,**
**Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd,**
**Caerdydd, CF10 4UW**
**Ffôn: (029) 2087 3477**

Am fanylion cyswllt a gwybodaeth:


Y Tîm Cadwraeth
Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd
Dinas a Sir Caerdydd, Ystafell CY4,
Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd,
Caerdydd. CF10 4UW.
Ffôn: (029) 2087 3477